# Papur i Ystyried Cyllideb Ddrafft y Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-16-06(P2) Atodiad 1

### Argymhellion y Gyllideb Ddrafft

Mae cyllideb y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi derbyn cynnydd o £3.600 miliwn mewn Cyfalaf a 33.230 mewn Refeniw ym mhob un o’r blynyddoedd rhwng 2007-2010.

Yn dilyn sylwadau’r Pwyllgor ar fy mhapur materion ar 6 Gorffennaf, argymhellir y dylid dyrannu’r cynnydd yn y gyllideb fel a ganlyn:

### Rhaglenni Gwariant Refeniw

- £2.0 miliwn ar gyfer Cefnogi Pobl (yn ogystal ?hrosglwyddo £3.0 miliwn o Brif Grwp Gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio – gweler isod). Bydd y cyllid hwn yn cyfrannu at ymdopi ?horiadau blynyddol y Trysorlys sydd wedi effeithio ar y gyllideb hon. Bydd y cyllid hwn yn galluogi Awdurdodau Lleol i barhau i roi cymorth refeniw ar gyfer rhaglenni fel cynlluniau gofal ychwanegol i bobl hyn bregus, digartrefedd, cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a phobl ag anableddau dysgu.
- £630,000 i liniaru’r pwysau i dalu cyflogau mewn gwasanaethau trin y camddefnydd o sylweddau. Mae cyfran fawr o Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) (Refeniw) Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Cyffuriau yn cael ei roi i gynllun Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) i ariannu’r gwaith o gomisiynu llefydd i drin y rhai sy’n gaeth i gyffuriau a/neu alcohol. Mae cost y contractau gydag Ymddiriedolaeth y GIG a darparwyr y sector gwirfoddol wedi cynyddu. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu ein Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau dros y 2 flynedd ddiwethaf, ond mae angen rhagor o gyllid o hyd ar yr elfen hon o’r Gwasanaeth Iechyd. Nodwyd hyn yn glir yn adolygiad polisi’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.
- £600,000 fel rhan o Gyllideb y DU fis Mawrth 2006. Bydd £300,000 o’r cyllid hwn yn mynd i’r Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan, gan ehangu’r Rhaglen graidd gyfredol a datblygu elfen newydd ar wahan, i gwmpasu materion fel troseddau casineb/ar sail hil, tanau bwriadol, goryfed mewn pyliau a chamddefnyddio sylweddau. Bydd y £300,000 sy’n weddill yn mynd i helpu i weithredu argymhellion Adroddiad Niwed Cudd y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau.

### Rhaglenni Gwariant Cyfalaf

- £600,000 i ddatblygu darpariaeth llety diogel ar gyfer pobl ifanc. Ar hyn o bryd, dim ond 50 lle diogel sydd yng Nghymru ar gyfer troseddwyr ifanc, ac mae tua 130 o bobl ifanc o Gymru yn cael eu cadw mewn sefydliadau yn Lloegr. Rydym yn gweithio gyda’r Bwrdd Cyfiawnder

Ieuenctid i ddatblygu llefydd ychwanegol yng Nghymru i gadw troseddwyr ifanc, yn arbennig yn y Gogledd. Bydd y gwaith o ddatblygu cyfleuster o’r fath yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdod lleol neu asiantaeth o’r sector gwirfoddol.
- £1 miliwn i weithredu’r gwelliannau i seilwaith safleoedd sipsiwn-teithwyr a argymhellir gan Adroddiad Niner.
- £1 miliwn ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol Wanless i ddarparu tai gofal ychwanegol i’r nifer cynyddol o bobl hyn. Rhaglen drawsbynciol yw hon, sy’n arbed adnoddau yn y cyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- £1 miliwn i liniaru’r pwysau ychwanegol ar adnoddau awdurdodau lleol yn dilyn dileu’r prawf modd i rieni plant anabl ar gyfer Grant Cyfleusterau’r Anabl.

## Trosglwyddo Cyllid rhwng BELs

Argymhellir hefyd y dylai swm bach o gyllid Refeniw gael ei ail-flaenoriaethu fel rhan o Gyllideb Ddrafft MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sef £5.4 miliwn o BEL Dibenion Cymunedol a £300,000 o BEL Refeniw Rhaglen Adfywio Canol Trefi. Bydd y gwaith o ail-flaenoriaethu yn digwydd fel a ganlyn:

- £300,000 i ddarparu tegwch ariannol ar gyfer Gwasanaethau Gofal a Thrwsio, gan alluogi pobl hyn a phobl anabl i aros yn eu cartrefi yn sgil addasiadau, yn ogystal ?od yn adnodd allweddol wrth sicrhau bod pobl hyn yn derbyn cymaint o fudd-daliadau ?hosibl.
- £300,000 ar gyfer y Gronfa Cymunedau Diogelach i sicrhau cynnydd ar sail chwyddiant i gyllideb Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.
- £300,000 ar gyfer Grant Gwasanaethau Trais yn y Cartref. Bydd hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer y llinell gymorth gam-drin domestig a mentrau eraill yn 2007-08.
- £3 miliwn ar gyfer Cefnogi Pobl (fel y nodir uchod).
- £300,000 ar gyfer gwaith ychwanegol gyda Cheiswyr Lloches/Ffoaduriaid. Bydd y cyllid hwn yn mynd at gyflawni’r gwaith sy’n gysylltiedig â'r Strategaeth i Gynnwys Ffoaduriaid.
- £1 miliwn ar gyfer y Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau i ddatblygu gwasanaethau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc.
- £500,000 ar gyfer CAFCASS CYMRU i gyllido Canolfannau Cyswllt dan Oruchwyliaeth, prosiectau cyfryngu a threfniadau gyda sefydliadau partneriaeth.

Mae yna ddigon o gyllid ar ôl yng nghyllideb Dibenion Cymunedol i dalu am y gwaith arfaethedig o ehangu’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

## Newidiadau i Feysydd Rhaglenni Gwariant (SPAs) a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs)

Mae’r gyllideb ddrafft hefyd yn adlewyrchu nifer o newidiadau sy’n symleiddio categor? SPA cyfredol ac yn ailalinio BELs o fewn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Mae’r newidiadau’n cynnwys:

## Cyllideb Refeniw

- creu BEL Buddsoddi Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref newydd.
- creu BEL CAFCASS CYMRU newydd.
- tynnu'r BEL Cydraddoldeb o'r MEG (heb fod yn perthyn i Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio bellach).
- symud y BEL Diogelwch yn y Cartref/Adeiladu i'r SPA Gwella Tai.
- uno'r SPA Adfywio Cymunedol a'r SPA Cymunedau Cryfach i SPA Cryfhau ac Adfywio Cymunedau.

## Cyllideb Cyfalaf

- creu Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr newydd i ddefnyddio'r cyllid newydd.
- uno'r SPA Adfywio Cymunedol a'r SPA Cymunedau Cryfach i SPA Cryfhau ac Adfywio Cymunedau.
- symud y BEL Buddsoddi Diogelwch yn y Cartref/Adeiladu a'r BEL Buddsoddi Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref i'r SPA Gwella Tai.